

Fframwaith Rheoli Perfformiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – Fersiwn Gryno

Mae rheoli perfformiad yn ymwneud â gweithredu mewn ymateb i berfformiadau gwirioneddol er mwyn sicrhau bod canlyniadau i ddefnyddwyr a’r cyhoedd yn well nag y byddent fel arall.


Pam mae Rheoli Perfformiad yn Bwysig i Ni?

Mae rheoli perfformiad yn bwysig oherwydd ei fod yn ein galluogi i:

- ◆ asesu anghenion yn y tymor byr a chynaliadwyedd yn y tymor hir;
- blaenoriaethu yr hyn y mae angen ei wneud o fewn yr adnoddau sydd ar gael;
- sicrhau ein bod yn darparu gwerth am arian;
- ysgogi ac ymgysylltu â staff a neilltuo atebolrwydd;
- nodi a gwella perfformiad gwael ar gam cynnar;
- dysgu o berfformiad yn y gorffennol a gwella perfformiad yn y dyfodol; a
- chynyddu bodlonrwydd y cyhoedd.

Dull Rheoli Perfformiad

Rydym yn defnyddio dull systematig o reoli perfformiad, sy’n dilyn y cylch ‘**cynllunio-gwneud-adolygu-diwygio**’ a gydnabyddir gan y diwydiant.



Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

Swyddogaethau a Chyfrifoldebau

<p>Aelodau Etholedig</p> <ul style="list-style-type: none"> ◆ Atebolrwydd gwleidyddol ◆ Hyrwyddo penderfyniadau ◆ Herio, craffu a gwneud argymhellion ◆ Cymeradwyo a chymryd perchnogaeth o'r Cynllun Corfforaethol, y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'r Adroddiad Blynyddol ◆ Cymeradwyo a chraffu ar Gynlluniau Busnes Cyfarwyddiaeth ◆ Cefnogi swyddogion i ddarparu gwasanaethau a monitro cynnydd er mwyn sicrhau y caiff anghenion dinasyddion eu diwallu ◆ Gwneud penderfyniadau corfforaethol 	<p>Prif Swyddogion (Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Gweithredol a Phenaethiaid Gwasanaethau)</p> <ul style="list-style-type: none"> ◆ Atebolrwydd gweithredol ◆ Craffu a gwneud argymhellion ◆ Atebol am ddatblygu a chyflawni'r Cynllun Corfforaethol, Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a chynlluniau strategol eraill ◆ Atebol am ddatblygu, craffu a chyflawni rhaglenni gweddnewid corfforaethol a chynlluniau busnes cyfarwyddiaeth ◆ Atebol am asesu perfformiad corfforaethol a Chyfarwyddiaeth ◆ Gwneud penderfyniadau corfforaethol (ynghyd ag Aelodau Etholedig)
<p>Prif Swyddogion (Rheolwyr Grŵp/Rheolwyr)</p> <ul style="list-style-type: none"> ◆ Cynorthwyo datblygiad Cynlluniau Busnes Cyfarwyddiaeth ◆ Atebol am ddatblygu a gweithredu cynlluniau cyflawni gwasanaeth/grŵp ◆ Monitro ac adolygu perfformiad yn barhaus ◆ Yn gyfrifol am weithredu systemau rheoli perfformiad a chywirdeb data ◆ Sicrhau ansawdd y data a gaiff eu hychwanegu a'u monitro yn ddyddiol ◆ Yn gyfrifol am ddarparu gwybodaeth ac adroddiadau rheoli perfformiad ar gyfer adolygu corfforaethol a gwasanaethau ◆ Cynnal arfarniad staff blynyddol ac adolygiad hanner blwyddyn 	<p>Yr Holl Staff</p> <ul style="list-style-type: none"> ◆ Cyfrifoldeb dros berfformiad a rheoli perfformiad ◆ Cyfrifoldeb dros fonitro eu cynlluniau a'u hamcanion unigol eu hunain ◆ Cynnal arfarniad staff blynyddol a chwblhau adolygiad hanner blwyddyn ◆ Darparu mewnbwn ac adborth er mwyn sicrhau gwelliant parhaus ◆ Darparu gwasanaethau i'n dinasyddion – wyneb y Cyngor ◆ Derbyn adborth dyddiol ac uwchgyfeirio materion yn ôl yr angen ◆ Casglu a chofnodi gwybodaeth mewn modd prydlon a chywir